Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Frongoch
# Rhyl Road
# Dinbych
# Sir Ddinbych
# LL16 3DP

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Frongoch yn ysgol iau gymunedol yn nhref Dinbych. Mae mwyafrif y disgyblion yn byw yn ardal gyfagos Dinbych Isaf. Daw lleiafrif o ddisgyblion o Ddinbych Uchaf a phentrefi cyfagos.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion saith i un ar ddeg oed ac mae 207 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae wyth dosbarth yn yr ysgol, pedwar ohonynt â disgyblion oed cymysg a phedwar â disgyblion o'r un grŵp oedran.

Mae tua 13% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd islaw cyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r grŵp ethnig gwyn Prydeinig, gyda rhyw 8% o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi Saesneg mamiaith. Mae saith o ddisgyblion yn cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan tuag 19% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol. Dros y 12 mis diwethaf, mae ychydig bach iawn o ddisgyblion wedi'u gwahardd am gyfnod dros dro. Mae ychydig bach iawn o ddisgyblion yn 'derbyn gofal' gan awdurdodau lleol.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 2007. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mehefin 2010.

Y gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Frongoch yn 2014-2015 yw £2,902 y disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Ddinbych yw £9,103 a'r lleiafswm yw £2,902. Mae Ysgol Frongoch yn safle 47 o'r 47 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- o'u mannau cychwyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl ac yn gywir ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu;
- mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu syniadau a'u hawgrymiadau yn effeithiol trwy amrywiaeth addas o grwpiau ac mae hyn yn arwain at welliannau yn ansawdd y dysgu a'r ddarpariaeth; ac
- mae gan bron pob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer datblygu;
- mae staff yn cydweithio'n dda i gyflawni nodau ac amcanion cytûn yr ysgol;
- mae gweithdrefnau systematig, sefydledig ar gyfer hunanarfarnu, sy'n cynnwys defnyddio tystiolaeth uniongyrchol a gafwyd trwy fonitro darpariaeth a safonau yn rheolaidd; ac
- mae gan yr ysgol lawer o bartneriaethau cadarn sy'n cael effaith fuddiol ar ddysgu a lles disgyblion.

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer ac atgyfnerthu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella medrau darllen Cymraeg disgyblion a sicrhau bod disgyblion yn defnyddio mwy o'r Gymraeg y tu hwnt i wersi Cymraeg ffurfiol

A3 Mynd i'r afael â'r pryderon iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad, mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau sy'n debyg i'r rhai a ddisgwylir fel arfer ar gyfer disgyblion o'r un oedran. O'u mannau cychwyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau siarad a gwrando da. Ymatebant yn briodol i gwestiynau ac maent yn ymwneud â'i gilydd yn rhwydd yn ystod trafodaethau a thasgau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n briodol ar oedolion ac yn defnyddio'u medrau iaith yn effeithiol i roi esboniadau clir a mynegi eu barn yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar syniadau eu ffrindiau ac yn canolbwyntio am gyfnodau priodol yn ystod gwersi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl ac yn gywir ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Mynegant farn glir am y llyfrau a ddarllenant ac maent yn rhagweld beth fydd yn digwydd nesaf yn feddylgar. Atebant gwestiynau yn hyderus am y gwahanol fathau o destunau a ddarllenant ac maent yn rhannu eu barn am eu hoff lyfrau ac awduron. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau darllen uwch yn effeithiol, fel brasddarllen testun i gael gwybodaeth.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus at amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd mewn brawddegau llawn, gan ddefnyddio atalnodi cywir. Defnyddiant eu medrau llythrennedd yn dda ym meysydd eraill y cwricwlwm, er enghraifft mewn gwyddoniaeth wrth ysgrifennu am daith ddychmygol i'r lleuad ac wrth archwilio afonydd fel rhan o waith mewn daearyddiaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn cynllunio'u gwaith yn effeithiol, er enghraifft trwy lunio mapiau meddwl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio llawysgrifen a chyflwyniad clir, ac yn defnyddio ystod ddiddorol o eirfa. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn sillafu'r rhan fwyaf o eiriau cyffredin yn briodol ac yn gwneud ymdrech dda i sillafu geiriau anghyfarwydd. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio amrywiol strwythurau brawddeg yn llwyddiannus er mwyn creu pwyslais ac effaith wrth greu darnau estynedig o ysgrifennu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion luosi rhifau a degolion yn gywir ac amcangyfrif hyd a thebygolrwydd yn synhwyrol. Mewn gwyddoniaeth a daearyddiaeth, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau mesur a thrin data yn effeithiol. Cyflwynant wybodaeth gan ddefnyddio graffiau bar yn gywir. Fodd bynnag, dim ond ystod gyfyngedig o fedrau rhifedd y mae disgyblion yn ei chymhwyso i'w gwaith ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn dysgu Cymraeg. Mae disgyblion yn mwynhau defnyddio ymadroddion Cymraeg sylfaenol a gall y rhan

fwyaf ohonynt gymryd rhan mewn sgyrsiau syml, strwythuredig, er enghraifft amdanynt eu hunain neu’r tywydd. Mae llawer ohonynt yn gofyn cwestiynau penodol yn frwdfrydig, ond yn llai hyderus wrth sgwrsio y tu allan i wersi Cymraeg. Mae medrau ysgrifennu’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda wrth iddynt symud ymlaen drwy’r ysgol. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ddarllen a deall Cymraeg wedi’i ddatblygu cymaint.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni eu targedau unigol.

At ei gilydd, mae disgyblion yn cyflawni’n dda o gymharu â disgyblion mewn ysgolion tebyg yn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Yn 2014, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Fe wnaeth perfformiad cyffredinol yn y pynciau craidd osod yr ysgol yn y 25% uchaf yn 2011 ac yn 2013 ac yn yr 50% is yn 2012.

Ar y lefel uwch na’r disgwyl (lefel 5), mae perfformiad disgyblion yn 2014 yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer gwyddoniaeth ac yn yr 50% uwch ar gyfer Saesneg a mathemateg. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar y lefel hon, ym mhob pwnc craidd, wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf neu’r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn gyffredinol, prin yw’r amrywiaeth rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched. Fodd bynnag, ar y lefel uwch na’r disgwyl (lefel 5) mewn gwyddoniaeth, dros y pedair blynedd diwethaf, mae’r bwlch rhwng y rhywiau, rhwng perfformiad merched o gymharu â bechgyn, wedi bod yn anwadal. At ei gilydd, mae cyrhaeddiad disgyblion sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim cystal â chyrhaeddiad disgyblion eraill.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Datblygant agweddau cadarnhaol ynghylch eu hunain a’i gilydd, gan gynnwys pwysigrwydd ymarfer corff a diet iach. Mae ganddynt fedrau cymdeithasol a phersonol cynyddol aeddfed ac maent yn awyddus i ddatblygu eu galluoedd ei gilydd, er enghraifft trwy’r sesiynau wythnosol ar fedrau ar brynhawniau Gwener.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn frwdfrydig ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu a chanolbwyntiant yn dda mewn gwersi. Maent yn ymddwyn yn dda a dangosant lefelau uchel o barch, gofal a phryder tuag at bobl eraill.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd ag ystod eang o gyfrifoldebau yn y dosbarth ac ar draws yr ysgol ac yn eu cyflawni’n gydwybodol. Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu syniadau a’u hawgrymiadau’n effeithiol trwy amrywiaeth addas o grwpiau, gan arwain at welliannau cadarnhaol. Er enghraifft, fe wnaeth y cyngor ‘Cyfaill Bwyd’ weithredu bar salad newydd, hambyrddau bwyd newydd a seddi newydd yn y ffreutur, a chynllunio diwrnodau cinio ysgol â thema. Mae cyngor yr ysgol, y clwb eco a llysgenhadon diogelwch y rhyngrwyd yn effeithiol iawn ac yn

chwarae rhan frwdfrydig mewn gwneud penderfyniadau pwrpasol sy'n dylanwadu ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar, chwaraeodd y cyngor ysgol ran briodol mewn penodi aelod o dîm arwain yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol a chefnogant elusennau lleol a chenedlaethol yn dda.

Tua 95% oedd lefel presenoldeb disgyblion y llynedd ac mae hyn yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg. At ei gilydd, mae presenoldeb wedi bod yn dda dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'r ysgol wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 25% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ystod dda o brofiadau dysgu ysgogol sy'n difyrru ac yn ennyn diddordeb bron pob un o'r disgyblion yn dda. Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn bodloni gofynion statudol. Mae cynllunio'r athrawon yn fanwl a thrylwyr ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd dysgu cyfoethog yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o deithiau ac ymwelwyr i ennyn diddordeb disgyblion a bodloni eu hanghenion yn effeithiol, fel ymweliad gan bennaeth llwyth o Affrica. Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ym Mlwyddyn 3 yn adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae cynllunio dyddiol athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac yn datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, mae ystod brin o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae arddangosfeydd yn y coridorau a'r ystafelloedd dosbarth, a chyflwyno'r 'Tocyn Iaith', yn helpu i hybu ethos Cymraeg priodol. Trwy amrywiaeth o gyfleoedd diddorol, mae disgyblion yn dysgu'n llwyddiannus am eu bro ac am Gymru, ei thraddodiadau a'i diwylliant.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am ddatblygu cynaliadwy. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ailgylchu a lleihau gwastraff er mwyn diogelu adnoddau. Mae'r ysgol yn ehangu gorwelion disgyblion a'u gwybodaeth am y byd ehangach yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth werth chweil o'u rôl fel dinasyddion byd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl athrawon yn meddu ar wybodaeth briodol am eu pwnc ac yn defnyddio amrywiaeth addas o strategaethau addysgu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnal gwersi ar gyflymder bywiog, ac yn defnyddio canmoliaeth a gwobrau'n llwyddiannus i reoli ymddygiad a helpu disgyblion i lwyddo. Mae amcanion dysgu clir gan y rhan fwyaf o wersi ac maent yn adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion. Mae llawer

o athrawon yn gofyn cwestiynau pen agored yn effeithiol i ymestyn medrau meddwl a chyfathrebu disgyblion. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu'n ymgysylltu'n dda â disgyblion ac yn creu amgylchedd gweithio cynhyrchiol ym mhob dosbarth.

Mae llawer o athrawon yn cytuno ar feini prawf llwyddiannus ar gyfer pob gwers gyda'u dosbarthiadau, fel bod disgyblion yn gallu barnu eu cynnydd eu hunain yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig buddiol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac mae'r holl sylwadau ysgrifenedig yn canmol gwaith da yn briodol. Mae llawer o sylwadau'r athrawon yn helpu disgyblion i ddeall beth i'w wneud nesaf i wella. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod addas o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol ac yn cynnwys disgyblion fwyfwy wrth arfarnu eu dysgu eu hunain a dysgu eu cymheiriaid.

Mae'r holl athrawon yn cyfrannu'n effeithiol at gasglu a dadansoddi gwybodaeth am gynnydd disgyblion. Mae gan athrawon ddarlun cywir o gyflawniadau disgyblion ac maent yn nodi unrhyw rai sy'n perfformio islaw disgwyliadau. Mae'r ysgol yn defnyddio system olrhain electronig sy'n cefnogi cynllunio athrawon yn dda, gan ganiatáu iddynt osod targedau realistig i ddisgyblion yn rheolaidd.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn fanwl ac addysgiadol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae staff yn nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn darparu cymorth targedig perthnasol iddynt. Mae athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd yn erbyn targedau sydd wedi'u diffinio'n glir. Defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio darpariaeth bellach a strategaethau ymyrryd gwerth chweil. Mae athrawon yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd eu plentyn.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o wasanaethau arbenigol ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cael at gymorth proffesiynol pan fo angen. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn dosbarthu cynorthwywyr addysgu yn dda i roi cymorth cyson dda i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae lefel uchel y gofal a'r perthnasoedd cadarnhaol cadarn rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad disgyblion. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hybu ymddygiad da, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos cadarnhaol yn yr ysgol.

Mae profiadau dysgu'n hybu datblygiad personol disgyblion yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae'n darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn amgylchedd croesawgar iawn i ddisgyblion, rhieni ac ymwelwyr. Mae ganddo ethos cynhwysol cadarn lle y mae staff yn rhoi pwys ar bob disgybl ac mae darpariaeth yr ysgol ar gael yn gyfartal iddynt. Mae pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu glân a dymunol. Mae digon o ardaloedd dysgu awyr agored, gan gynnwys adnoddau addas i ategu dysgu, fel ardal yr ardd. Yn ddiweddar, fe wnaeth yr ysgol ddatblygu ei hardaloedd dysgu awyr agored i ddisgyblion Blwyddyn 3 yn helaeth. Mae'r ddarpariaeth newydd hon wedi dechrau sicrhau mwy o gysondeb i ddisgyblion Blwyddyn 3 wrth bontio'n effeithiol o'r Cyfnod Sylfaen.

Mae digon o adnoddau o ansawdd da i fodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae ystod briodol o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, fel yr ystafell TGCh, byrddau gwyn rhyngweithiol a llechi.

Tynnodd y tîm arolygu sylw cadeirydd y corff llywodraethol at nifer o faterion sy'n cael effaith negyddol ar les disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn, bwrpasol ac effeithiol. Mae'n cyfleu gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus i'r holl staff. Mae'r staff yn cydweithio'n dda i gyflawni'r nodau a'r amcanion cytûn trwy ethos cadarn o ofal. Ymatebant yn dda i'w rolau arwain gwasgaredig. Mae tîm arwain yr ysgol, a benodwyd yn ddiweddar, wedi creu cymuned ddysgu effeithiol lle mae staff yn canolbwyntio'n glir ar wella deilliannau i ddisgyblion a lle y maent yn myfyrio'n adeiladol ar eu harferion presennol.

Mae'r pennaeth yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio'r wybodaeth o fonitro addysgu a dysgu yn rheolaidd, a'r dadansoddiad cynhwysfawr o ddata ar berfformiad, i sefydlu cyfeiriad strategol clir i'r ysgol.

Mae llywodraethwyr yn chwarae rhan weithgar ym mywyd yr ysgol, er enghraifft trwy drafod materion y cwricwlwm gydag athrawon a disgyblion. Derbyniant ddiweddariadau manwl am berfformiad yr ysgol gan y pennaeth. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o safonau ac yn herio'r ysgol yn weithgar trwy gwestiynu data ar berfformiad yn drylwyr. Trwy nifer o is-bwyllgorau, mae'r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau a'u profiadau unigol.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu a gwneud y mwyaf o'r awyr agored i gefnogi dysgu'r disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn meddu ar ddarlun cywir o'i chryfderau a'r meysydd y mae angen iddi eu gwella. Mae ganddi weithdrefnau sefydledig a systematig ar gyfer hunanarfarnu, sy'n cynnwys y defnydd rheolaidd ar ddystiolaeth uniongyrchol a geir trwy fonitro darpariaeth a safonau yn helaeth. Mae'r ysgol yn mynd ati i geisio barn rhieni'n briodol ac mae'n gweithredu ar y canfyddiadau, er enghraifft trwy wneud newidiadau i adroddiadau disgyblion ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth a geir o holiaduron disgyblion a chyngor yr ysgol.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr a manwl. Mae'n darparu barnau sicr am berfformiad presennol yr ysgol. Mae cysylltiad clir rhwng deilliannau'r broses hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n dda ar wella deilliannau i ddisgyblion. Mae'n cynnwys amserlenni, costau a meini prawf llwyddiant realistig, ac mae'n nodi staff sydd â rolau allweddol o ran gweithredu'r cynllun. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r targedau yn y cynllun bob amser yn gallu cael eu mesur yn briodol.

Mae'r ysgol yn monitro cynnydd yn erbyn ei thargedau ac yn arfarnu eu heffeithiolrwydd yn dda. Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o effaith mentrau, fel datblygiad darpariaeth i ddisgyblion mwy abl a dawnus. Hefyd, mae wedi mynd i'r afael â'r holl argymhellion o'r arolygiad blaenorol yn llwyddiannus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol lawer o bartneriaethau cryf sy'n cael effaith fuddiol ar ddysgu a lles disgyblion. Yn benodol, mae perthynas gadarnhaol iawn rhwng yr ysgol a rhieni. Mae rhieni'n teimlo bod croeso iddynt yn yr ysgol ac maent yn gwerthfawrogi agosatrwydd yr holl staff, gan gynnwys y pennaeth.

Mae trefniadau pontio wedi'u sefydlu'n dda gyda'r ysgol fabanod bwydo. Er enghraifft, ymweliadau â champws yr ysgol ar gyfer gweithgareddau cyfrifiadurol a chymorth prosiect canu i helpu i gynyddu hyder disgyblion wrth ymuno ym Mlwyddyn 3. Mae cysylltiadau â'r ysgol uwchradd yn sicrhau pontio llyfn i ddisgyblion, fel y cyswllt â'r athro cerddoriaeth uwchradd a'r cyfleoedd i ddisgyblion berfformio yn y Côr Pontio.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau buddiol â'r awdurdod lleol, y gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill i gefnogi dysgu a lles disgyblion. Mae'n gweithio'n dda gydag ysgolion lleol eraill ar ystod o weithgareddau, gan gynnwys safoni ac asesu, gan helpu i sicrhau cysondeb a chywirdeb yn asesiadau athrawon o waith disgyblion. Mae'r bartneriaeth â'r ysgol fabanod bwydo yn effeithiol, fel y digwyddiadau ar y cyd i rieni sy'n datblygu cysylltiadau buddiol rhwng staff, disgyblion a rhieni.

Mae cysylltiadau gwerth chweil gyda'r gymuned ehangach, sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar les a phrofiadau dysgu disgyblion, er enghraifft ymweliadau sy'n ymestyn dealltwriaeth disgyblion o storïau'r Beibl.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan staff addysgu gymwysterau a phrofiad priodol. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Caiff staff cymorth rolau a chyfrifoldebau priodol a gwnânt gyfraniad gwerthfawr at ddysgu a lles disgyblion.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu yn effeithiol. Mae targedau'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol ac ar ddatblygu arbenigedd staff unigol.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu bwrpasol.  Mae staff yn rhannu a lledaenu arfer dda yn yr ysgol a chydag ysgolion eraill yn effeithiol, er enghraifft dulliau cynllunio'r cwricwlwm a ddefnyddir yn y blynyddoedd iau hŷn.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadeiladau, ei hadnoddau a'i chyllideb yn dda.  Mae'n seilio'i phenderfyniadau gwariant yn briodol ar flaenoriaethau'r ysgol a chyflawni'r gwerth gorau.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o grantiau Llywodraeth Cymru i gefnogi dysgu a lles disgyblion, fel defnyddio offer TGCh yn bwrpasol i gefnogi grwpiau o ddisgyblion.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwerth chweil o'r grant amddifadedd disgyblion, fel cefnogi medrau rhifedd disgyblion penodol.  Mae ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn dangos bod yr ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae carfanau bach iawn yn nifer o flynyddoedd data perfformiad y Cyfnod Sylfaen sydd ar gael ar gyfer yr ysgol hon. Yn yr achos hwnnw, nid ydym yn cynnwys tabl o ddata perfformiad.

**6632125 - Ysgol Frongoch**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 203 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.7 |
| Grŵp PYD | 2 (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 48 | 56 | 34 | 58 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 93.8 | 83.9 | 97.1 | 94.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 48 | 56 | 34 | 58 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.8 | 85.7 | 97.1 | 96.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 37.5 | 37.5 | 47.1 | 46.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 48 | 56 | 34 | 58 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.8 | 89.3 | 97.1 | 94.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 43.8 | 53.6 | 47.1 | 44.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 48 | 56 | 34 | 58 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.8 | 91.1 | 100.0 | 96.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 47.9 | 46.4 | 64.7 | 58.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, drwy'r ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?lang=eng

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Holiadur cynradd (Cyffredinol)

mae’n dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 100 | 96<br>96%<br>98% | 4<br>4%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 98 | 91<br>93%<br>92% | 7<br>7%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 99 | 94<br>95%<br>97% | 5<br>5%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 100 | 100<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 98 | 97<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 97 | 91<br>94%<br>96% | 6<br>6%<br>4% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 100 | 98<br>98%<br>99% | 2<br>2%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 99 | 96<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 98 | 89<br>91%<br>91% | 9<br>9%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 98 | 89<br>91%<br>95% | 9<br>9%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 98 | 63<br>64%<br>77% | 35<br>36%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 96 | 89<br>93%<br>84% | 7<br>7%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 64 | 46<br>72% | 17<br>27% | 0<br>0% | 1<br>2% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 64 | 48<br>75% | 15<br>23% | 1<br>2% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 64 | 47<br>73% | 15<br>23% | 1<br>2% | 1<br>2% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 63 | 41<br>65% | 17<br>27% | 1<br>2% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 64 | 31<br>48% | 28<br>44% | 2<br>3% | 1<br>2% | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 64 | 45<br>70% | 14<br>22% | 2<br>3% | 0<br>0% | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 64 | 48<br>75% | 13<br>20% | 2<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 64 | 38<br>59% | 21<br>33% | 5<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 64 | 47<br>73% | 13<br>20% | 1<br>2% | 1<br>2% | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 64 | 46<br>72% | 16<br>25% | 1<br>2% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 64 | 50<br>78% | 14<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 61 | 29<br>48% | 24<br>39% | 0<br>0% | 1<br>2% | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 64 | 35<br>55% | 25<br>39% | 3<br>5% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 64 | 49<br>77% | 13<br>20% | 0<br>0% | 1<br>2% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 64 | 41<br>64% | 17<br>27% | 1<br>2% | 0<br>0% | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 64 | 45<br>70% | 16<br>25% | 1<br>2% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 63 | 36<br>57% | 15<br>24% | 1<br>2% | 0<br>0% | 11 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 64 | 43<br>67% | 19<br>30% | 1<br>2% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 63 | 49<br>78% | 12<br>19% | 1<br>2% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anthony Bate | Arolygydd Cofnodol |
| Roger Rees | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Geraldine Foley | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ruth Thackray | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.